# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 11 Tachwedd 2015** |
| Amser: | **12.30 – 12.50** |

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Cofnodion: AC(4)2015(13)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Y Fonesig Rosemary Butler AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Angela Burns AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Rhodri Glyn Thomas AC** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Nicola Callow, Cyfarwyddwr Cyllid**<br>**Donna Davies, Pennaeth Pensiynau**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd** |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau

1.2 Datgan buddiannau

Gofynnodd Peter Black AC a David Melding AC i’r cofnodion nodi eu bod yn ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau’r Cynulliad.

1.3 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref.

## 2 Cynllun Pensiwn Aelodau’r Cynulliad

Rhoddwyd gwybodaeth i’r Comisiynwyr am y modd y mae’r Tîm Pensiynau yn gweithredu’r newidiadau y penderfynodd y Bwrdd Taliadau eu gwneud i Gynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad, ac yn rhoi gwybod i’r Aelodau am y newidiadau hyn.

Bydd y Bwrdd Pensiynau newydd yn cynnwys:

- Ymddiriedolwr Annibynnol proffesiynol, a fydd yn cadeirio’r Bwrdd.
- Dau gynrychiolydd a enwebir gan yr Aelodau presennol ac Aelodau blaenorol.
- Dau gynrychiolydd a benodir gan Gomisiwn y Cynulliad.

Bydd y Tîm Pensiynau yn trefnu bod pob aelod o'r Bwrdd Pensiynau wedi’i benodi erbyn mis Mai 2016. Byddant yn ysgrifennu at yr holl aelodau yn gofyn iddynt a ydynt yn dymuno sefyll fel Ymddiriedolwr a enwebir gan Aelodau, a gofynnodd y Comisiynwyr a fyddai modd cysylltu â swyddfeydd y grwpiau hefyd.

Cytunodd y Comisiynwyr y dylai'r Swyddog Cyfrifyddu, mewn ymgynghoriad â’r Comisiynwyr, fod yn gyfrifol am nodi ac enwebu cynrychiolwyr y Comisiwn ar y Bwrdd Pensiynau newydd.

## 3 Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol Ebrill - Medi 2015

Ystyriodd y Comisiwn yr adroddiad cyntaf ar berfformiad corfforaethol y Comisiwn yn ystod blwyddyn ariannol 2015-16.

Cyfeiriodd y Comisiynwyr yn benodol at absenoldeb oherwydd salwch, nifer yr ymwelwyr a’r nifer sy’n cymryd rhan mewn DPP. Awgrymwyd hefyd y gellid adnewyddu rhai o'r dangosyddion ac y byddai’n ddefnyddiol medru cymharu canlyniadau dros gyfnod.

Cytunodd y Comisiwn i gyhoeddi’r adroddiad, ynghyd â llythyr i’r Pwyllgor Cyllid. Caiff yr adroddiad nesaf ei baratoi a’i gynhyrchu ar ôl diwedd mis Mawrth 2016.

## 4 Unrhyw fater arall

Diolchodd y Comisiynwyr i'r Dirprwy Lywydd am y gwaith roedd wedi'i wneud ar gyllideb y Comisiwn.

Trafodwyd a chytunwyd ar y materion a ganlyn, drwy ohebiaeth, yn ystod y cyfnod cyn y cyfarfod hwn:

- Cynigion i osod system teledu cylch cyfyng newydd ar Ystâd y Cynulliad. Ystyriwyd hyn yn y cyfarfod ar 17 Medi ac roedd y Comisiwn wedi cael rhagor o wybodaeth i ganiatáu iddynt ddod i gasgliad terfynol.